

Cyngor Tref Pontardawe

Datganiad Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

2016

Mae Cyngor Tref Pontardawe yn rheoli tir yn ei Barciau a'i Neuaddau Cymunedol yn Ynysmeudwy, Trebanos a Rhyd-y-Fro. Mae ganddo ddylanwad hefyd dros dir yng Ngwarchodfa Natur Cwmdu mewn cydweithrediad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae'n rheoli'r Parciau a'r Neuaddau ac mae ganddo ddylanwad yn sgil hynny trwy gaffaeliad. Fel Cyngor Tref, mae ganddo ddylanwad hefyd trwy amryw fudiadau cymunedol a thrydydd parti trwy waith partneriaeth a thrwy ddarparu grantiau. Yn 2018 canmolwyd Cyngor Tref Pontardawe gan Un Llais Cymru am brosiectau Amgylcheddol

Gweithredwyd er mwyn:

Sefydlu bioamrywiaeth fel ystyriaeth gadarn mewn penderfyniadau a chaffaeliad

Ar waith – Dod i gysylltiad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot yng Nghwmdu, 'Prosiect Gweithio gyda Natur', asesiadau risg a Chynllun Rheoli ar gyfer Coed. Meinciau o blastig wedi'i ailgylchu.

Arfaethedig - Adolygu'r deunyddiau glanhau a ddefnyddir mewn neuaddau gyda'r bwriad o ddefnyddio cynnyrch sy'n fwy ecogyfeillgar/prynu swmp o gynnyrch er mwyn lleihau pecynnau. Adolygu chwynladdwyr a ddefnyddir gan Gyngor y Dref a Chontractwyr. Gofyn bod blodau basgedi crog yn cynnwys mathau sy'n gyfeillgar i wenyn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod Bioamrywiaeth yn cael ei sefydlu fel ystyriaeth gadarn mewn penderfyniadau. (Plannu parhaol, mathau lleol, cyfeillgar i wenyn, cyfyngau ar dorri gwair, ardaloedd o wair mewn dolydd ayb)

Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd

Arfaethedig – Cyhoeddi cynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar y wefan, ar gyfyngau cymdeithasol ac yn y Cylchgrawn Cymunedol. Cael ysgolion a chymunedau i fod yn rhan o'r newidiadau. - Mwy Hirdymor – Defnyddio'r profiad a gafwyd i gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer ysgolion ac aelwydydd ynghylch creu mannau bioamrywiol mewn gerddi, mannau chwarae ayb

Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd blaenllaw ac adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol gwydn

Ar waith - Dod i gysylltiad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot ('Tîm Gweithio gyda Natur') er mwyn sicrhau bod y Warchodfa Natur yn cael ei rheoli mewn ffordd ecogyfeillgar. Dilyn canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch coed sydd wedi cwmpo, creu pentyrrau cynefin, blychau ystlumod ac adar

Arfaethedig - Parhau i ddod i gysylltiad â thîm Gweithio gyda Natur Cyngor Castell-nedd Port Talbot, ar sail anffurfiol. Cychwyn cynllun clefyd y coed ynn ar gyfer Cwmdu mewn cydweithrediad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Cynnwys Swyddog Seilwaith Gwyrdd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn y newidiadau i'w gwneud yn y Parciau/Neuaddau. Mwy hirdymor - Dod i gyswllt ag ymarferwyr Eco Glan-yr-afon.

Taclo ffactorau negyddol: h.y. lleihau llygredd, defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, rhoi sylw i rywogaethau goresgynnol, clefyd y coed ynn

Ar waith - Gweithwyr Cyngor y Dref a Chontractwyr yn cael gwared ar ganclwm Japan mewn Parciau/Llwybrau Troed. Cael gwared ar ganclwm Japan a rhywogaethau goresgynnol yng Nghwmdu yn ystod y 'Prosiect Gweithio gyda Natur'

Arfaethedig - Parhau â'r ddau, a hefyd adolygu plaladdwyr a chwynladdwyr a ddefnyddir gan contractwyr a staff. Adolygu cynnyrch glanhau a phrynu swmp o gynnyrch mewn Neuaddau er mwyn cyflwyno cynnyrch sy'n fwy ecogyfeillgar. Prynu mewn swmp er mwyn lleihau pecynnau. Tymor Hirach - Ceisio cael mwy o'r gymuned i gymryd rhan er mwyn dechrau cael pobl i newid eu hymddygiad. Cynllun Clefyd y Coed Ynn mewn cydweithrediad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

Arfaethedig – Adolygu datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweithio gyda Phartneriaid (nodau tymor byr, canolig, hir). Estyn model Ynysmeudwy allan at bob parc / neuadd / man gwyrdd sy'n eiddo i Gyngor y Dref. Annog eraill i ddilyn cynlluniau. Ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, Gwefan, defnyddio llwyfannau cymunedol amgylcheddol a gwyliau cymunedol

Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth

Arfaethedig – Ymgysylltiad â'r Gymuned yn ystod prosiectau (Grwpiau ffrindiau / Trydydd Sector/ Cymunedau / Ysgolion ayb)

Capasiti i gefnogi, a/neu drefnu

Canlyniadau Allweddol: defnyddio naratif a metrig lle'n bosibl

Datganiad cenhadaeth Cyngor Tref Pontardawe ar gyfer 'Heddiw, Yfory a'r Dyfodol'

Arfaethedig – Cyhoeddi datganiad Lefel Uchel bob tair blynedd gyda chefnogaeth dogfennau gweithio sy'n dangos camau gweithredu, cyraeddiadau, prosiectau a gwblhawyd, prosiectau newydd

Pwyntiau adolygu – Galluogwyr ar gyfer / Rhwystrau rhag gweithredu, gwelliannau i'r blaen-gynllunio

Galluogwr yw cydweithio

Dyma'r rhwystrau – Ariannol, capasiti Sefydliadol, ymddygiadol ac amserlen

Sut a phryd fydd y ddyletswydd a6 yn cael ei monitro a'r cynllun a6 yn cael ei adolygu?

Pwyllgor Eco a Llesiant i gwrdd yn chwarterol ac yna adrodd i'r Cyngor llawn